

Seintiau Cymru, Sancti Cambrenses

ASTUDIAETHAU AR SEINTIAU CYMRU
STUDIES IN THE SAINTS OF WALES

69 36

o bu natw o lo om byddant o bu natw
 nichys gorsiant hwy dal y wae y gwr
 goras or gwyddas yna y wa yrbu

Oed yr arallwydd pam waethbwyd y llyfr
 hysm oedd hymthenghymlynedd a deugam
 a ffedwar tant a wyl phylit ap wadoc
 ap jenaf ap jerdweth hys y llyfr hysm

1717
1455
0262

Wrtthun ydram a ysgribenwedd hysm
Oeddi ap sant ap tesic ap tyredic
 ap tuncessa wledic *haec habes in
 v. hyst. f. g. m. s.*

Syr o gaeu gawc y mynws oedd i Sam
 Sobael ap jisacl hacl ap tyredic ap
 tuncessa wledic **T**ynnac ap forbu ap ty
 edic ap tuncessa wledic **T**elard ap aniel
 ap hysm dwin ap tyredic ap tuncessa
 wledic **D**uard boellt ap tesic ap tyred
 ic ap tuncessa wledic **D** thegbesse wyl
 segis woel o bentllym. Sam **P**remullas
 ap tuncessa wledic **F**ynbelyu ap blesous ap
 weiran ap tybiad wyl tuncessa wledic
Finniasu dremu yn llym **D** ferioel ym
 heuon **D** weirion y weirionnes ac

Frontispiece. The opening of Bonedd y Saint in Aberystwyth, National Library of Wales, Llanstephan 28, p. 69, reproduced by kind permission of the National Library of Wales / Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Seintiau Cymru, Sancti Cambrenses

ASTUDIAETHAU AR SEINTIAU CYMRU
STUDIES IN THE SAINTS OF WALES

golygwyd gan / edited by

David N. Parsons

a / and

Paul Russell



ABERYSTWYTH

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD

PRIFYSGOL CYMRU

2022

© Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant © 2022.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng electronig, mecanyddol, ffotocopiô, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd ymlaen llaw gan Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

All rights reserved. No part of this book may be reproduced, stored in a retrieval system, or transmitted in any form or by any means, electronic, mechanical, photocopying, recording or otherwise, without permission from The University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies, The National Library of Wales, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.
A Cataloguing in Publication record for this volume is available in the British Library.

ISBN 978-1-907029-32-5

Seiliedig ar brosiectau ymchwil a noddwyd gan / *Based on research projects funded by*



**Arts and
Humanities
Research Council**

Cynllun y clawr / *Cover design:* Martin Crampin

Cysodi / *Typesetting:* David Parsons

Argraffu / *Printing:* Hobbs the Printers, Totton, Hampshire

Contents / Cynnwys

Introduction	ix
Rhagymadrodd	xv
Abbreviations / Byrfoddau	xxi
1. The Vespasian Life of St Teilo and the Evolution of the <i>Vitae Sanctorum Wallensium</i> <i>Ben Guy</i>	I
2. The Legend of Saint Brendan in Cotton Vespasian A.xiv <i>Joshua Byron Smith</i>	31
3. Crime, Law, and the Justice of the Saints in Medieval Welsh Hagiography <i>Andrew Rabin</i>	43
4. Approaching the Genealogies of the Welsh Saints <i>Barry Lewis</i>	65
5. Translating Saints: the Latin and Welsh Versions of the Life of St David <i>Paul Russell</i>	101
6. The Later Lives of St David in NLW MSS Peniarth 27ii, Llanstephan 34 and Peniarth 225 <i>Jenny Day</i>	119
7. A Welsh Hagiographical Export: The 'Irish Recension' of the Life of St David and the Cult of St David in Ireland <i>Sarah Waidler</i>	155
8. A Dove at his Ear: Imaging St David <i>Martin Crampin</i>	187
9. The later Lives of Mary of Egypt in NLW MS Llanstephan 34 and Cardiff, Central Library MS 2.633 <i>Jenny Day</i>	209

10. The Welsh Versions of the Life of Gwenfrewy <i>Jane Cartwright</i>	237
11. ‘Canu’ Beirdd y Tywysogion i’r Saint <i>Ann Parry Owen</i>	269
12. Agweddau ar Naratif a Strwythur y Cerddi Cymraeg i’r Seintiau <i>David Callander</i>	287
13. Gerald of Wales and the Life of St Caradog <i>Francesco Marzella</i>	299
14. St Cadog in Scotland <i>Thomas Clancy</i>	317
15. The Afterlives of St Melangell (alias Monacella) <i>Paul Russell</i>	333
16. The Imagery of Saints in Medieval Wales <i>Martin Crampin</i>	345
Index	381
Contributors / Cyfranwyr	393

Illustrations / Lluniau

Figures / Ffigyrau

5, 1	Stemma representing James’s view of the relationship of the versions of <i>VS David</i>	103
5, 2	Stemma representing Sharpe’s view of the relationship of the versions of <i>VS David</i>	103
5, 3	Stemma showing the relationship between L and <i>WLSD</i>	109
7, 1	The manuscripts of the Irish Recension deriving from the Nero-Digby recension of the Life of David	161
8, 1	Christopher Charles Powell, St David, c. 1950, stained glass, Church of St David, Penmaenmawr	191
8, 2	Salviati & Co., St David Preaching, 1871, glass mosaic, St Davids Cathedral, designed by John Hardman Powell	193

8, 3	Heaton Butler & Bayne, St David, 1930, stained glass, Church of St Padarn, Llanbadarn Fawr	195
8, 4	Mayer & Co., St David at the Synod of Victory, c. 1897, stained glass, Metropolitan Cathedral of St David, Cardiff	200
8, 5	Frederick Mancini, St David, 1959, stone, Church of St David, Llanddewi Brefi	205
10, 1	Stemma showing possible interpretation of the relationship between the Welsh manuscripts and the other versions	241
16, 1	Fragments of stained glass, probably late fifteenth or early six- teenth century, Church of St Mary, Llanfair Dyffryn Clwyd	348
16, 2	St Frideswide and St Catherine, late fifteenth or early sixteenth century, Church of St Tyrnog, Llandyrnog	349
16, 3	St Apollonia, probably first quarter of the sixteenth century, Church of All Saints, Gresford	353
16, 4	St Andrew, mid-fourteenth century, St Davids Cathedral, tomb of Bishop Henry de Gower	355
16, 5	Apostles with lines from the Creed, late fifteenth or early sixteenth century, Church of St Bridget, Dyserth	357
16, 6	Possible scenes from the Life of St Nicholas, fourteenth century, Church of St Michael, Colwinston	361
16, 7	Possibly St Winefride in Majesty, ceiling boss at St Wini- frede's Well, Holywell, probably early sixteenth century	379

Tables / Tablau

1, 1	A comparison of the contents of the Vespasian and LL Lives of St Teilo	12
10, 1	Selected variants in the versions of <i>Buchedd Gwenfrewy</i>	247

Map

11, 1	Eglwysi a enwir gan Wynfardd Brycheiniog yn 'Canu i Ddewi'	285
-------	---	-----

Abbreviations / Byrfoddau

<i>AchS</i>	<i>Achau'r Saint</i> ; printed <i>EWGT</i> 68–71.
<i>BBCS</i>	<i>Bulletin of the Board of Celtic Studies</i> [=BBGC].
<i>BBGC</i>	<i>Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd</i> [=BBCS].
<i>BD</i>	<i>Buched Dewi</i> , gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1965).
<i>ByS</i>	<i>Bonedd y Saint</i> ; printed <i>EWGT</i> 51–67, cf. below 66 and n. 4.
<i>CLIGC</i>	<i>Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru</i> [=NLWJ].
<i>CMCS</i>	<i>Cambrian</i> [formerly <i>Cambridge</i>] <i>Medieval Celtic Studies</i> .
<i>CYSDT</i>	<i>Cywyddau Ymryson Syr Dafydd Trefor</i> , gol. R. Ifans (Aberystwyth, 2012).
<i>eLALME</i>	Electronic version of <i>A Linguistic Atlas of Late Mediaeval English</i> , ed. A. McIntosh, M. L. Samuels and M. Benskin (Aberdeen, 1986; rev. edn. 2013) <amc.lel.ed.ac.uk/amc-projects-hub/project/elalme/>.
<i>EWGT</i>	<i>Early Welsh Genealogical Tracts</i> , ed. P. C. Bartrum (Cardiff, 1966).
<i>GBF</i>	<i>Gwaith Bleddyn Fardd ac Eraill o Feirdd Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg</i> , gol. Rh. M. Andrews <i>et al.</i> (Caerdydd, 1996).
<i>GCBM I</i>	<i>Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr; I</i> , gol. N. A. Jones ac A. Parry Owen (Caerdydd, 1991).
<i>GCBM II</i>	<i>Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr; II</i> , gol. N. A. Jones ac A. Parry Owen (Caerdydd, 1995).
<i>GDB</i>	<i>Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg</i> , gol. N. G. Costigan (Bosco) <i>et al.</i> (Caerdydd, 1979).
<i>GDLI</i>	<i>Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn</i> , gol. W. L. Richards (Caerdydd, 1964).
<i>GEO</i>	<i>Gwaith Einion Oeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug</i> , gol. R. Geraint Gruffydd a R. Ifans (Aberystwyth, 1997).
<i>GGMD III</i>	<i>Gwaith Gruffudd ap Maredudd, III, Canu Amrywiol</i> , gol. A. Parry Owen (Aberystwyth, 2007).
<i>GIBH</i>	<i>Gwaith Ieuan Brydydd Hir</i> , gol. M. P. Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2000).
<i>GIRh</i>	<i>Gwaith Ieuan ap Rhydderch</i> , gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2003).
<i>GLGC</i>	<i>Gwaith Lewys Glyn Cothi</i> , gol. D. Johnston (Caerdydd, 1995).

- GLIBH* *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac eraill*, gol. A. Parry Owen a D. Foster Evans (Aberystwyth, 1996).
- GLIF* *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. K.A. Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994).
- GLLIL* *Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. E. M. Jones (Caerdydd, 1989).
- GMB* *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J. E. C. Williams *et al.* (Caerdydd, 1994).
- GPC* *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–2002; ail. arg., 2003–) <geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>.
- GSHLIF* *Gwaith Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1999).
- IGE*² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. H. Lewis, T. Roberts ac I. Williams, ail arg. (Caerdydd, 1937).
- LBS* S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints*, 4 vols (London, 1907–13).
- LL* *Liber Landavensis; The Text of the Book of Llan Dâv*, ed. J. Gwenogvryn Evans and J. Rhys (Oxford, 1893).
- LLA* J. Morris Jones and John Rhÿs (eds.), *The Elucidarium from Llyvyr Agkyr Llandewivrevi* (Oxford, 1894).
- MSPVM* Dominic of Evesham, *Miracula Sancte et Perpetue Virginis Marie*; ed. and trans. I. Mittendorf, 'The Middle Welsh Mary of Egypt and the Latin source of the Miracles of the Virgin Mary', in *The Legend of Mary of Egypt in Medieval Insular Hagiography*, ed. E. Poppe and B. Ross (Dublin, 1996), 226–31.
- NLA* *Nova Legenda Anglie*, ed. C. Horstman, 2 vols (Oxford, 1901).
- NLWJ* *National Library of Wales Journal* [=CLIGC].
- NSB* *Navigatio Sancti Brendani*; see below, 32 n. 4.
- ODNB* *Oxford Dictionary of National Biography*, <www.oxforddnb.com>.
- PL* J.-P. Migne, *Patrologiae Cursus Completus ... series Latina* (Paris, 1844–55, 1862–65).
- STC* A. W. Pollard and G. R. Redrave, *A Short-Title Catalogue of Books Printed in England, Scotland and Ireland 1475–1640*, 2nd edn, rev. by W. A. Jackson *et al.*, 3 vols (London, 1976–91).
- TA* *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones, 2 gyfrol (Caerdydd, 1926).

- VSBG* A. W. Wade-Evans, *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae* (Cardiff, 1944; new edn, ed. S. Lloyd, 2013 [pagination largely identical, differences are noted]).
- VSD* *Vita S. David*; ed. and trans. R. Sharpe and J. Reuben Davies, 'Rhygyfarch's Life of St David', in *St David of Wales: Cult, Church and Nation*, ed. J. Wyn Evans and J. M. Wooding (Woodbridge, 2007), 107–55.
- VSME* Paul of Naples, *Vita Sanctae Mariae Egyptiacae*; ed. and trans. H. Magennis, *The Old English Life of Saint Mary of Egypt* (Exeter, 2002), 139–209.
- VSW* *Vita Sancte Wenefrede*, ed. and trans. D. Callander, forthcoming at <welshsaints.ac.uk/theedition>; see below, 239 and n. 16.
- WLSD* *The Welsh Life of Saint David*, ed. D. Simon Evans (Cardiff, 1988)

11

‘Canu’ Beirdd y Tywysogion i’r Saint

ANN PARRY OWEN

Golygwyd y tair cerdd a drafodir yn y bennod hon yn rhan o brosiect Beirdd y Tywysogion dros 30 mlynedd yn ôl erbyn hyn.¹ Fel yn achos prosiectau diweddarach Beirdd yr Uchelwyr a Guto’r Glyn, bwriad prosiect Beirdd y Tywysogion oedd creu golygiadau safonol o holl gerddi’r beirdd, heb unrhyw elfen o ddewis a dethol, er mwyn cyflwyno testunau dibynadwy o’r holl gorpws i’w defnyddio gan ysgolheigion mewn amrywiol feysydd. Fel man cychwyn diogel ar gyfer ymchwil bellach y bwriadwyd holl olygiadau’r prosiectau hyn, nid fel y gair olaf ar eu dehongli. Yn wir mae’r cerddi a gysylltwn â Beirdd y Tywysogion mor astrus ar brydiau, fel bod gwir angen dychwelyd atynt droeon i herio’r deongliadau ac i ofyn cwestiynau newydd a gwahanol.

Yn yr ysbryd hwn y daethpwyd at y tair cerdd gan Feirdd y Tywysogion i’r saint wrth eu hailolygu ar gyfer prosiect Cwlt y Seintiau yng Nghymru.² Nod amcan y prosiect diweddaraf hwn fu archwilio testunau yn ymwneud â’r saint, yn farddoniaeth ac yn rhyddiaith, i weld beth y gallent ei ddysgu i ni am bwysigrwydd y saint ym mywydau’r Cymry yng nghyfnod cyfansoddi’r testunau hynny, o’r ddeuddegfed ganrif hyd y ddeunawfed. Felly wrth olygu’r cerddi hyn o’r newydd, ceisiwyd gweld beth oedd agwedd y beirdd (ac felly’r gymdeithas yr oeddynt yn byw ynddi) tuag at y saint, beth a wyddent am eu hanesion, eu gwyrthiau, eu creiriau ac ati, a beth a’u hysbardunodd i ganu cerddi mor hir, pwy oedd eu noddwyr ac ar ba fath o achlysur ac o flaen pwy y canwyd hwy.

Yn hanner cyntaf y bennod hon rwyf am edrych ar y ddwy ffynhonnell ganoloesol ar gyfer y tair cerdd, cyn trafod detholiad o linellau o ‘Ganu i Ddewi’ yn yr ail hanner.

¹ ‘Canu i Gadfan’, *GLIF* cerdd 1 (gol. Catherine McKenna); ‘Canu Tysilio’, *GCBM* 1, cerdd 3 (gol. Ann Parry Owen); ‘Canu i Ddewi’, *GLIF* cerdd 26 (gol. Morfydd E. Owen).

² Am olygiadau newydd prosiect Cwlt y Seintiau yng Nghymru, gw. <seintiaucymru.ac.uk/ygolygiad> (gol. Ann Parry Owen). Cyfeirir at y golygiadau hyn o’r tair cerdd yng nghwrs y bennod hon, oni nodir yn wahanol.

I

Mae'r tair cerdd dan sylw yn awdlau amlganiad maith:³ mae 'Canu i Gadfan' gan Lywelyn Fardd yn 178 llinell; 'Canu Tysilio' gan Gynddelw Brydydd Mawr yn 242 llinell a 'Chanu i Ddewi' gan Wynfardd Brycheiniog yn 296 llinell: dyna gyfanswm o 716 llinell o farddoniaeth. Gallwn fod yn gwbl hyderus mai awdlau a gyfansoddwyd ar gyfer achlysuron o bwys oedd y rhain, ac fe'u diogelwyd gyda'r cerddi a ganwyd gan yr un beirdd i dywysogion cyfoes. Cadwyd y copi cynharaf o'r tair awdl yn Llawysgrif Hendregadredd (llawysgrif LIGC 6680B; H o hyn ymlaen), sy'n flodeugerdd drefnus o farddoniaeth Beirdd y Tywysogion a ganai rhwng tua diwedd yr unfed ganrif ar ddeg a chwarter olaf y drydedd ganrif ar ddeg. Casglwyd y cerddi hyn ynghyd tua'r flwyddyn 1300 gan ysgrifydd a weithiai, yn ôl pob tebyg, yn sgriptoriwm mynachlog Sistersaidd Ystrad-fflur yng Ngheredigion. Yn ei ymdriniaeth arloesol â'r llawysgrif hon, bedyddiodd Dr Daniel Huws yr ysgrifydd hwnnw'n 'Alpha':⁴ ef oedd cynllunydd y llawysgrif ac mae prif haen y gweithgarwch copïo yn ei law ef. Ar ôl iddo orffen ei waith, ychwanegodd dwy haen arall o ysgrifwyr destunau at y llawysgrif; ond gan fod y tair cerdd sydd dan sylw yn llaw Alpha ei hun, nid oes angen trafod yr haenau diweddarach hynny ymhellach yma.

Mae ôl cynllunio trefnus a manwl ar gasgliad Alpha, ac mae dadansoddiad Huws o gynnwys y llawysgrif, a gwaith pellach Dr Nerys Ann Jones,⁵ yn dangos mai cerddi a ddaeth o Wynedd oedd sail y casgliad, ynghyd â gwaith amryw o feirdd o Bowys a'r Deheubarth, gyda gwaith Cynddelw Brydydd Mawr o Bowys mysg yr amlycaf a'r pwysicaf ohonynt. Roedd gwaith cynllunio a threfnu Alpha yn arloesol yn ei ddydd: dosbarthodd y cerddi yn ôl gweithiau beirdd unigol, gan gyflwyno canu crefyddol bardd i gychwyn a'i ddilyn gan ei ganu i'r tywysogion, gan roi blaenoriaeth i dywysogion Gwynedd cyn y taleithiau eraill. Ceisiai osod teitl a phriodoliad i bob cerdd, ond fel y gwelir isod, nid ef ei hun a oedd yn gyfrifol am lunio'r teitlau ym mhob achos.

Adlewyrchir gofal Alpha wrth osod allan ei waith gan safon uchel ei destunau – testunau glân a chywir iawn. Mabwysiadodd system sillafu reolaidd wrth weithio, system sy'n debyg iawn, mewn rhai nodweddion, i system Llyfr Du Caerfyrddin, lle ceir *t*, er enghraifft, am /ð/ ar ganol ac ar

³ Defnyddiaf *caniad* am gyfres o linellau ar yr un odl (*awdl*), ac felly cerdd *amlganiad* yw un ac iddi sawl cyfres o'r fath, gyda phob cyfres wedi ei chysylltu â'i gilydd gan ryw ddyfais, megis cyrch-gymeriad.

⁴ Gw. Daniel Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', *CLIGC* 22 (1981–2), 1–26; *id.*, 'The Hendregadredd manuscript', *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff, 2000), 193–226.

⁵ Gw. Nerys Ann Jones, 'Ffynonellau canu Beirdd y Tywysogion', *Studia Celtica* 37 (2003), 81–126. Dibynnwyd yn drwm ar yr erthygl hon a gwaith Huws wrth drafod y llawysgrifau.

ddiwedd gair a *d* yn yr un safleoedd am /d/.⁶ Gwahanol yw system Llyfr Coch Hergest, lle ceir *d* yn arferol am /ð/ ar ganol a diwedd gair, *d* ar ganol gair am /d/ a *t* ar ddiwedd gair am /d/ – honno yw’r system y tueddwn i’w hadnabod fel ‘orgraff Cymraeg Canol’. Anfantais y ddwy system yw’r ffaith mai *d* a geir ynddynt am /d/ ac /ð/ ar ddechrau gair, ac felly mae’n rhaid i’r golygydd benderfynu pa un sydd debycaf wrth ddiweddarau’r orgraff: er enghraifft, a ddylid diweddarau’r llinell ganlynol o ‘Ganu i Ddewi’, H 80^r *Rotes duw dofyt defnyt oe uoli*, fel *Rhoddes Duw Dofydd defnydd – o’i foli* neu fel *Rhoddes Duw Ddofydd ddefnydd – o’i foli*? Gellid amddiffyn y ddau ddehongliad, felly mae’n rhaid seilio’r dewis ar wybodaeth am arferion cynghanedd a threiglo’r bardd unigol. Yn yr achos hwn, penderfynwyd mai’r patrwm cyntaf sy’n fwyaf nodweddiadol o arferion treiglo Gwynfardd Brycheiniog.⁷

Testunau Alpha yn H yw’r testunau hynaf a gadwyd i ni o’r tair cerdd, felly, a dyna a ddefnyddiwyd yn sail i’r golygiad o ‘Ganu i Ddewi’ a ‘Chanu i Gadfan’; ond mae problem fawr ynglŷn â thestun ‘Canu Tysilio’ gan Gynddelw Brydydd Mawr.

Cadwyd barddoniaeth Cynddelw yn wreiddiol mewn pum plyg (‘quire’) yn H. Dichon mai arwydd o’i bwysigrwydd fel bardd yw’r ffaith i Alpha benderfynu gosod ei waith ef ar ddechrau’r flodeugerdd. Aildrefnwyd y plygion gan John Dafis o Fallwyd yn yr ail ganrif ar bymtheg, a’i drefn newydd ef a welir bellach yn y llawysgrif. Yn ôl cynllun gwreiddiol Alpha, cynhwysai’r plyg cyntaf ganu crefyddol Cynddelw, gan gynnwys 100 llinell gyntaf ei ‘Ganu Tysilio’. Copïodd Alpha weddill ‘Canu Tysilio’ i’r ail blyg, ond bonyn bellach yw ffolio cyntaf y plyg hwnnw, ac mae’r inc wedi treulio’n wael ar rannau o’r ffolio canlynol. Mae’r traul yn awgrym cryf fod y ddalen hon wedi bod ar flaen y llawysgrif am gyfnod maith – ac felly gallwn dybio bod y plyg cyntaf o gerddi Cynddelw wedi ei gollu yn gynnar iawn yn hanes y llawysgrif. Collwyd plygion eraill hefyd o H – ond yn ffodus iawn copïodd John Dafis destun rhai o’r plygion hynny yn hanner can tudalen cyntaf ei ‘Liber B’ o destunau canoloesol (sef LIGC 4973B) yn 1631. Cyn hynny, yn 1617, yr oedd Dafis eisoes wedi copïo testunau o H i’w ‘Liber A’ (sef BL Add 14869), ac mae’r ffaith na chopïodd yno ‘Ganu Tysilio’ na chanu crefyddol Cynddelw yn cadarnhau bod plyg cyntaf H wedi mynd ar goll o leiaf cyn dechrau’r ail ganrif ar bymtheg.

⁶ Ymhellach ar orgraff H, gw. Thomas M. Charles-Edwards and Paul Russell, ‘The Hendregadredd manuscript and the orthography and phonology of Welsh in the early fourteenth century’, *NLWJ* 28 (1994), 419–62.

⁷ Cysefin y gwrthrych sy’n arferol gan Wynfardd Brycheiniog yn y gystrawen: berf (trydydd unigol gorffennol) + goddrych + gwrthrych, cf. ‘Canu i Ddewi’ ll. 30, *Dyrchafwys Dewi Breifi a’i braint* lle mae angen y *B-* yn *Breifi* ar gyfer y gyfatebiaeth â *braint* yn y gynghanedd sain.

Yn ffodus, cadwyd copi cyflawn o ‘Ganu Tysilio’ mewn ail ffynhonnell ganoloesol, sef Llyfr Coch Hergest (R o hyn ymlaen) y llawysgrif enfawr honno, Coleg yr Iesu, Rhydychen, rhif 111 a ddisgrifiwyd gan Daniel Huws fel ‘Chwarel fwyaf llenyddiaeth Gymraeg’.⁸ Mae R hefyd yn cynnwys ail gopi o ‘Ganu i Ddewi’ gan Wynfardd Brycheiniog, a chofnodwyd y ddwy gerdd gan Hywel Fychan o Fuellt, prif law’r llawysgrif ac ysgrifydd proffesiynol a weithiai dan gomisiwn i Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan ger Abertawe. Copïodd Hywel Fychan ei destunau i R rhwng 1382 a 1405, ganrif yn ddiweddarach na thestunau Alpha yn H. Testun H yw’r unig destun canoloesol o ‘Ganu i Gadfan’.

O gymharu fersiynau H ac R o ‘Ganu Tysilio’ a ‘Chanu i Ddewi’, gwelir bod testun H yn rhagori bron bob tro, a bod olion blerwch yn aml ar destun R: hepgorir geiriau gan adael llinellau’n fyr, a cheir dwy enghraifft o hepgor llinellau cyfan.⁹ Ond y cwestiwn allweddol i’w ofyn wrth baratoi golygiad yw: a yw testunau R o ‘Ganu i Ddewi’ a ‘Chanu Tysilio’ yn gopiâu o destunau H, boed hynny’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol drwy ryw ffynonellau sydd bellach ar goll? Neu a yw testunau’r ddwy lawysgrif yn tarddu’n annibynnol ar ei gilydd o ryw ffynhonnell gyffredin sydd bellach wedi ei cholli, ond bod rhagor o destunau coll rhwng testunau R a’r ffynhonnell honno, a esboniai’r ffaith fod testun R yn fwy gwallus ar y cyfan na thestun H? Yn sicr mae’r testunau’n debyg iawn i’w gilydd – nid yn unig o ran y cynnwys a’r geiriau unigol, ond dyna’r argraff a geir hefyd o sylwi ar nodweddion orgraffyddol, ar ddefnydd y ddau ysgrifydd o inc coch, o briflythrennau ac o atalnodi.¹⁰ O graffu’n ofalus ar y darlenniadau sy’n wahanol rhwng testunau’r ddwy lawysgrif (a chyfyngir y sylwadau yma i dystiolaeth ‘Canu i Ddewi’ a ‘Chanu Tysilio’), gallwn fod yn hyderus *nad* testun H oedd ffynhonnell R, a’i bod yn debygol, yn hytrach, fod y ddwy lawysgrif yn tynnu ar ryw ffynhonnell gyffredin, a bod testun H yn nes at y ffynhonnell honno nag R. Gwan, efallai, yw tystiolaeth yr ambell ddarlenniad gwallus yn H, lle ceir darlenniad gwell yn R, gan ei bod yn ddigon posibl fod y copiwr deallus Hywel Fychan wedi sylweddoli bod y

⁸ Daniel Huws, ‘Llyfr Coch Hergest’, yn *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol*, gol. Iestyn Daniel, Marged Haycock a Jenny Rowland (Caerdydd, 2003), 1.

⁹ ‘Canu i Ddewi’ ll. 31 *Ei ffrainth wrth ei fryd i freiniawg – ysydd* (H *Y vreint 6rth y uryd y vreinyabC. y ssyt, R Y vreint 6rth y vryt y vreina6C*, ac ar ôl cymharu testun R gyda’i gopi ef o H yn BL 14869, ychwanegodd John Dafis y gair *yssydd* yn R); ‘Canu i Ddewi’ ll. 39 *Ac ef a’n gwrthfyn, wrth nad ofnawg* (H *Ac ef an g6rthuyn 6rth nad ofna6C, R ac ef an g6rthuyn nat ofyna6C*); ‘Canu i Ddewi’ ll. 114 *A gwerin a gwin a gwirodydd* (H *A g6erin a gwin a gwirodyt, R ag6erin a g6irodyd*); ‘Canu Tysilio’ ll. 206 *Mad gynnull mawrddull merwerydd* (H *gynnull ma6r dull merweryt, R mat gynnull ma6rwerdyd*); ‘Canu Tysilio’ ll. 183 *Diffyrth hael hir Brochfael broglyd* (H [] *hael hil* [], R *Diffyrth hael hir brochuael broglyt*). Ni cheir ‘Canu i Ddewi’ llau. 121 a 283 yn R.

¹⁰ Cymharer trawsysgrifiadu’r ddwy lawysgrif yn <seintiaucymru.ac.uk/ygolygiad/>.

darlleniad yn wallus ac wedi ei gywiro wrth gopïo.¹¹ Mwy argyhoeddiadol yw’r manau hynny lle mae Alpha yn H wedi diweddarau’r orgraff i gydymffurfio â’i system orgraffyddol ei hun, gan ddangos treigladau lle nad oedd treigladau yn ei ffynhonnell, ond lle mae Hywel Fychan wedi cadw ffurfiau didreigladau yn R.¹² Go brin y byddai Hywel Fychan wedi adfer cytsain didreigladau os copïai’n uniongyrchol o destun H a gynhwysai’r treigladau, yn enwedig gan fod y gynghanedd yn aml yn bleidiol i’r ffurfiau treigledig.¹³ Llai aml yw’r manau lle mae Hywel Fychan wedi nodi’r treigladau a lle mae Alpha yn cadw’r gytsain gysefin: mae hyn yn gyson â’r farn fod Alpha yn well golygydd na Hywel Fychan.¹⁴

O gymharu testun H ac R o ‘Canu i Ddewi’ a ‘Chanu Tysilio’, felly, mae’n debygol fod copïau H ac R yn tarddu o’r un gynsail gyffredin, gan ategu awgrym N.A. Jones am berthynas testunau H ac R yn gyffredinol.¹⁵ Gellir nodi sawl peth am y gynsail honno. Nid yw wastad yn ddi-fai, fel y gwelir yn y darlleniadau gwallus sy’n gyffredin i’r ddwy lawysgrif.¹⁶ Nid

¹¹ E.e. (nodir y darlleniad gwallus mewn teip trwm): H *A glascóm ae glwys gyr glas vynyit, R a glascóm ae eglwys gyr glas uynyid* (‘Canu i Ddewi’ ll. 104 *A Glasgwm a’i eglwys ger glas fynyid*); H *gwythuaöbri briadaöbri briaöbri defeu*, R *ggyrthuaöbri briadaöbri briaöbri dedueu* (‘Canu i Ddewi’ ll. 217 *Gwyrthfawr briodawr, briaöbri ddeddfawr*); H *Rei g6einyon nothon aethan uateu*, R *rei g6ynnyon nothon aethan uadeu* (‘Canu i Ddewi’ ll. 235 *Rhai gweinion nothon aethan faddau*).

¹² Sylwer bod yr enghreifftiau gan amlaf yn ymwneud â threiglo neu beidio â threiglo’r cytseiniaid *p a t*: H *ar drugaret duw ar drugaraöc*, R *ar trugared duöb ar trugaraöc* (‘Canu i Ddewi’ ll. 40 *Ar drugaredd Duw, ar Drugarawg*); H *yd gallönn bressen bresswil vodaöc*, R *yt gallönn pressen p’ssöyl uodaöti* (‘Canu i Ddewi’ ll. 62 *Yd alwn, bresen bresswyl fodawg*); H *A henynyw dec o du glennyit aeron*, R *a hen vynyöc dec o tuglennyit aeron* (‘Canu i Ddewi’ ll. 95 *A Henfynyw deg o du glennydd – Aeron*); H *ar seint sywedyt dedwyit dyghed*, R *arseint sywedyt detwyit tyghet* (‘Canu i Ddewi’ ll. 205 *Ar saint sywedydd, dedwydd dynged*); H *Creded paub y beir lluosyit*, R *cretet baöb y peir lluosyit* (‘Canu Tysilio’ ll. 199 *Creded bawb i Bair lluosydd*).

¹³ Cf. H *Credaf y bost present presswylf Jt*, R *Credaf ypost p’ssent pressöylwlyd* (‘Canu Tysilio’ ll. 207 *Credaf-i bost present presswylwlydd*); H *Can derryw can doryf egypton*, R *can terbyn cantorof egyptnyon* (‘Canu Tysilio’ ll. 238 *Can derryw, can dorff englyon*).

¹⁴ Ond gw. H *ditan perchi*, R *didanberchi* (‘Canu i Ddewi’ ll. 180 *diddan berchi*); H *gyd preinyaöc*, R *gyt breinaöc* (‘Canu i Ddewi’ ll. 54 *gydbreiniawg*).

¹⁵ Jones, ‘Ffynonellau, 111–12, ‘Y mae’n bosibl ... fod holl gerddi Beirdd y Tywysogion a gadwyd yn y Llyfr Coch yn deillio yn y pen draw o’r un ffynonellau ag a ddefnyddiwyd wrth greu casgliad Hendregadredd ond mai copïau gwahanol o’r ffynonellau hynny oedd gan ysgrifwyr y ddwy lawysgrif.’

¹⁶ E.e. mae darlleniad H ac R *arnei* yn ‘Canu i Ddewi’ ll. 182 yn difetha’r brifodl â *peri, Dewi, iddi, &c.*: H *allaöbri dec nyeill dyn disgöyl arnei*, R *allaöbri dec ny eill dyn disgöyl arnei*: ‘Canu i Ddewi’ ll. 182 *Allawr deg ni aill dyn ddisgwyl erni*. (Ar drydydd unigol benywaidd yr arddodiad *ar*, gw. P. Sims-Williams, ‘Variation in Middle Welsh conjugated prepositions: chronology, register and dialect’, *Transactions of the Philological Society* 111 (2013), 7–11; o blaid y darlleniad *erni*, yn hytrach nag *arni*, gw. yn arbennig td. 7, ‘I do not know of any example of *arni* in a pre-1425 MS.’, dosbarthiad y ffurfiau, td. 11 a cf. *GMB* 33.13 *erni*.) Roedd y llinell ganlynol hefyd yn fyr yn y ffynhonnell gyffredin: H *Ar adar ae haroy*, R *ar adar aeharoei*: ‘Canu i Ddewi’ ll. 173 *A’r adar anwar a’i harhöi* (gydag *anwar* yn ychwanegiad golygyddol); ac roedd y llinell ganlynol yn wallus: H *A uyt ary eu llw yw lliw*

oedd ysgrifwr y testun ychwaith yn dynodi'r treigladd meddal yn rheolaidd, yn enwedig yn achos y cytseiniaid *p a t*, nodwedd hefyd ar destunau Llyfr Du Caerfyrddin a rhai llawysgrifau cynnar eraill.¹⁷ Mae lle hefyd i gredu mai *t* am /d/ (ac nid *t* am /ð/, fel yn H) a geid yn y gysail; bod *e* yn cael ei defnyddio yno am *y*-dywyll, ac am y rhagenw blaen 3 unigol a hefyd am y ddeusain *ei*, sydd eto'n nodwedd ar rai hen systemau orgraff.¹⁸

Mae perthynas testunau'r ddwy lawysgrif yn arwyddocaol wrth ystyried teitlau'r tair cerdd.¹⁹ Wrth reswm yr ydym yn ddibynnol ar destun R am deitl 'Canu Tysilio'; ac yn H yn unig y ceir testun 'Canu i Gadfan'; a 'Canu i Ddewi' a geir yn H ac R yn achos y drydedd gerdd, gan awgrymu mai dyna oedd y teitl yn y gysail gyffredin. Mae'n ddi-ddorol sylwi mai 'Canu i Gadfan' a 'Chanu i Ddewi' a geir, ond 'Canu Tysilio' heb yr arddodiad a geir yn R: mae'n drueni na chadwyd teitl y gerdd honno yn H.

Ond beth am arwyddocâd yr elfen *Canu* yn y teitlau? A yw'n cyfeirio at fath arbennig o gerdd, neu at *ganu* yn gyffredinol yn yr ystyr o gasgliad o amrywiol gerddi i wrthrych penodol? O edrych ar y pymtheg cerdd gan Feirdd y Tywysogion a ddiffinnir fel *Canu* yn eu teitlau canoloesol,²⁰ daw'n

dyt goleu, R *auyd*. - *ar yeu llywyd*^d *lli6 dyd goleu*: 'Canu i Ddewi' ll. 221 *A fydd ar eu llu wy lliw dydd golau*.

¹⁷ Am enghreifftiau o ddfifyg treiglo *p a t*, gw. troednodyn 12. Ceir manau hefyd lle ceir cytsain gysefin yn y ddwy lawysgrif ond lle tybir mai cytsain dreigledig a fwriedid: e.e. H *hyd ar t6rch*, R *hyd ar t6rch*, 'Canu i Ddewi' ll. 147 *Hyd ar Dwrch*; ac yn achos 'Canu i Ddewi' ll. 183 *Ychwaneg cyfoeth crefydd beri*, ffurf gysefin y berfenw *peri* a geir yn nhestunau H ac R, ond os cywir mai berfenw yw *peri* yma a ragflaenir gan ei wrthrych, *crefydd*, disgwyliid i'r berfenw dreiglo, gw. Ann Parry Owen, 'Cyfuniadau *hydref ddail* ym marddoniaeth Beirdd y Tywysogion', yn *Cyfoeth y Testun*, gol. Daniel *et al.*, 248.

¹⁸ E.e., am *e* am *y*-dywyll, cf. H ac R *eno* am 'Canu i Ddewi' ll. 63 *yno*; H *gessefin*, 'Canu i Ddewi' ll. 83 *gysefin*; H *gefelach*, 'Canu i Ddewi' ll. 87 *Gyfelach*; *e* am y rhagenw blaen trydydd unigol, cf. H *yd eerwi*, R *ydeerwi*, 'Canu i Ddewi' ll. 169 *yd ei erwi*.

¹⁹ 'Canu i Ddewi' - H *Cānu y dewi Gwynnuart brycheinyab6 ae cant*, R: *Canu y dewi agant g6ynnuard brecheinyab6*; 'Canu Tysilio' - R *Canu tyssilyaw y6 hwnn. Kyndel6 ae cant*; 'Canu i Gadfan' - H *cānu y gaduan llywelyn uart ae cant*.

²⁰ **1** GMB cerdd 11, *Canu a gant g6alchmei y rodri vab ywein* (H, Alpha); **2** GMB cerdd 14, *Canu a gant g6alchmei vab meilyr y duw* (H, Alpha); **3** GCBM I, cerdd 3, *Canu tyssilyaw y6 hwnn. Kyndel6 ae cant* (R, Hywel Fychan); **4** GCBM I, cerdd 16, *canu y ywein kyueilyab6 kyndel6 brydyt ae cant* (H, Alpha); **5** GCBM II, cerdd 6, *canu a gant kyndel6 y hywel mab ewein* (H, Alpha); **6** GCBM II, cerdd 16, *Canu y duw. Kyndel6 ae cant* (R, Hywel Fychan); **7** GCBM II, cerdd 17, *canu a gant llywarch brydyt y moch y duw* (H, Alpha), *Kanu y duw. kyndel6 ae cant* (R, Hywel Fychan); **8** GLIL I cerdd 1, *Canu a gant prydyt y moch y dauyt mab ywein* (H, Alpha); **9** GLIL I cerdd 23, *canu a gant prydyt y moch y lywelyn mab ioruerth* (H, Alpha); **10** GLIL I cerdd 25, *y canu bychan a gant prydyt y moch y lywelyn vab ioruerth* (H, Alpha), *y canu bychan y lywelyn uab iorwerth. Prydyt y moch ae cant* (R, 'llaw Pen 32'); **11** GLIL I cerdd 26, *canu a gant prydyt y moch y ris gryc* (H, Alpha), *y canu molyant y rys gryc uab rys uab gruffud. llywarch brydyt y moch ae cant* (R, 'llaw Pen 32'); **12** GDB cerdd 18, *canu y lywelyn vab ioruerth einya6n vab G6ga6n ae cant* (H, Alpha); **13** GLIF cerdd 1, *canu y gaduan llywelyn uart ae cant* (H, Alpha); **14** GLIF cerdd 24, *Canu ir Arglwydd Rys Seisyll Bryffwrch a'i kant* (LIGC 4973B, John Dafis, < H, Alpha); **15** GLIF cerdd 26, *canu y dewi gwynnuart brycheinyab6 ae cant* (H, Alpha), *Canu y dewi a gant g6ynnuard brecheinyab6* (R, Hywel Fychan).

amlwg ei fod yn derm am gerdd fawl a gynhwysai ragor nag un caniad neu *awdl* (a defnyddir y gair *awdl* yn ei hen ystyr yma, sef cyfres o linellau ar yr un *odl* – hynny ydi, nid *awdl* yn yr ystyr eisteddfodol fodern).²¹ At hynny, llunia’r gerdd gyfanwaith, gan fod cyrch-gymeriad yn cysylltu diwedd pob *awdl* a dechrau’r nesaf ac mae cyswllt rhwng llinell olaf y gerdd a’r llinell gyntaf oll, yn arwydd bod y gerdd yn gyflawn.²²

Ymddengys, felly, mai term am gerdd fawl amlganiad oedd *Canu*,²³ ac o edrych ar noddwyr y pymtheg cerdd a ddisgrifir fel *Canu* yn eu pennawd, gwelir bod y mwyafrif helaeth wedi eu canu i noddwyr yng Ngwynedd yn y ddeuddegfed ganrif a dechrau’r drydedd ganrif ar ddeg. Mae’n debygol hefyd fod ambell un o’r cerddi mwy ‘deheuol’ yn eu mysg hwythau wedi cyrraedd llawysgrif H o Wynedd. Er enghraifft, annisgwyl ar yr olwg gyntaf yw’r ffaith fod ‘Canu i Ddewi’ i’w ganfod yn yr un cydiant â cherddi Llywelyn Fardd, ond fel yr awgrymodd N.A. Jones, mae’n ddigon posibl fod Gwynfardd Brycheiniog wedi gwasanaethu tywysogion o’r Gogledd yn ogystal â’r De.²⁴

Y man amlwg arall y ceir cerddi dan y pennawd *Canu* yw Llyfr Taliesin: er enghraifft, ‘Canu y Gwynt’, ‘Canu y Medd’, ‘Canu y Cwrw’f’ a ‘Chanu y Meirch’, a dangosodd yr Athro Marged Haycock fod rhai o’r cerddi hyn yn arddangos ‘symtomau’ o waith Llywarch Prydydd y Moch.²⁵ Yng ngoleuni hynny mae’n ddiddorol nodi mai ef oedd awdur pedair, os nad pump o’r cerddi mawl a elwir *Canu* yng nghorpws Beirdd y Tywysogion, sef traean ohonynt.²⁶ Sylwer hefyd mai ef biau’r unig gerdd a elwir yn ‘Canu Bychan’ yn ei theitl (sef cerdd un ganiad ar yr un brifodl drwodd – y math o gerdd a fyddai erbyn y drydedd ganrif ar ddeg yn cael ei galw yn *awdl*). Ai rhy fentrus fyddai gofyn tybed a fu’r bardd dysgedig Llywarch

²¹ Yr unig eithriad yw’r ‘Canu Bychan’ gan Brydydd y Moch, cerdd 10 yn y troednodyn blaenorol. Ai dyna a’i gwnâi’n ganu ‘bychan’?

²² E.e., dyma batrwm ‘Canu i Gadfan’: llinell gyntaf: *Gwerthefin Dewin, Duw i’w gwared*; cyswllt rhwng diwedd caniad 1 a dechrau caniad 2: *Fal wrth Dduw ei hun yd yr lunhied! / Lluniwys i Ddêws ddewis edrydd*; rhwng caniad 2 a 3: *A môr ac arfor a gorfyndd. / Mor elw fy nghynnelw yng nghynnor – lliaws*; rhwng caniad 3 a 4: *Ei chlod, ei harfod yn ei harfor. / Mor iawn ym o’ m dawn ac o’ m dirnad*; rhwng caniad 4 a 5: *Cadfan i gadw llan, efa Lleudad. / Cadr y ceidw Cadfan glan glas weilgi*; rhwng caniad 5 a 6: *Ac amser gosber gosbarth weini. / Gweinifiad fy nad am rad, am rann*; llinell olaf: *Cedwid Duw dewrddoeth cyfoeth Cadfan* gyda *Duw* yn cysylltu’n ôl â llinell gyntaf y gerdd.

²³ Trafodir y gwahaniaeth rhwng ‘awdl’ a ‘chanu’ yn nheitulau cerddi crefyddol gan Barry J. Lewis, ‘Genre a genres ym marddoniaeth grefyddol y Cynfeirdd y Gogynfeirdd’ (Traethawd PhD anghyhoeddiedig Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 2003), 78 ff.

²⁴ Gw. Jones, ‘Ffynonellau’, 116; cf. ‘Canu i Ddewi’, llau. 270–1 *Ac i foli Dewi dothwyf i’r Dehau: / Boed doeth Fôn a’ m clyw a’ m gwerendau!*

²⁵ Marged Haycock, *Legendary Poems from the Book of Taliesin*, 2nd edn (Aberystwyth, 2015), 30–1 *et passim*; ac ymhellach ar Lywarch Prydydd y Moch, gw. Esther Feer and Nerys Ann Jones, ‘The poet and his patrons: the early career of Llywarch Brydydd y Moch’, in *Medieval Celtic Literature and Society*, ed. Helen Fulton (Dublin, 2005), 132–62.

²⁶ Troednodyn 20, rhifau 8–11, ac o bosibl 7 hefyd (a derbyn mai cerdd gan Lywarch Brydydd y Moch, yn hytrach na Chynddelw, yw honno).

Brydydd y Moch yn gyfrifol am gofnodi'r cerddi hyn yng Ngwynedd, a rhoi teitlau i rai ohonynt, ac mai ei gopiâu ef, yn y pen draw, yw sail rhai o'r testunau yn H ac R?

II

O ran eu strwythur, mae'r tair awdl i'r saint yn gwbl nodweddiadol o ganu Beirdd y Tywysogion yn gyffredinol. Nid dweud hanes a wna'r beirdd ynddynt, gan symud yn rhesymegol neu'n Gronolegol o'r naill bwnc i'r llall. Yn hytrach, neidiant o un episod neu thema i'r nesaf gan ailadrodd rhai themâu neu gyfeiriadau at hanesion sawl gwaith yng nghwrs y gerdd, gan roi i ni ddarlun cynyddol o wahanol agweddau ar y sant a'i fuchedd, ac o'r bywyd ysblennydd yn ei eglwys yn y ddeuddegfed ganrif. Anodd iawn yw 'deall' unrhyw hanes a geir ynddynt, a rhaid casglu mai atgoffa'r gynulleidfa am hanesion a oedd eisoes yn gyfarwydd iddynt oedd bwriad y beirdd hyn. Ond hyd yn oed os na allwn ddisgrifio'r cerddi fel bucheddau ar fydr, ceir ynddynt yr holl gynhwysion disgwylidig mewn buchedd sant: cyfeiriadau at ei dras; hanesion amdano, yn enwedig am ei wyrthiau; ei greiriau; disgrifiad o'i eglwysi; hyd a lled ei nawdd; ac yn bwysicach na dim, efallai, ei rôl allweddol ar Ddydd y Farn, pan roddai air bach da am ei bobl yng nghlust y Barnwr Mawr, er mwyn rhwyddhau eu hynt i'r nefoedd.

Cyfansoddwyd 'Canu i Ddewi', sy'n gloddfa o wybodaeth am y sant a'i draddodiadau, yn gynnar yn chwarter olaf y ddeuddegfed ganrif, ryw ganrif a hanner cyn i awdur-gyfieithydd dienw gynhyrchu buchedd Gymraeg ar gyfer Dewi a llai na chanrif ar ôl i Rygyfarch gynhyrchu ei fuchedd Ladin yntau. Wrth sylwi ar y cyfatebiaethau rhwng gwaith Rhygyfarch a cherdd Gwynfardd, y casgliad mwyaf diogel yw bod y ddau awdur wedi tynnu ar yr un traddodiadau, yn hytrach na bod dylanwad uniongyrchol y naill destun ar y llall. Ceir gan y ddau themâu a hanesion nas ceir yng ngwaith ei gilydd.

Unigryw, er enghraifft, yn y deunydd am Ddewi yn gyffredinol yw'r hanes gan Wynfardd Brycheiniog am Dewi yn cael ei boenydio gan ferch *ddiwyl ei daint* a roddodd iddo ergyd â'i llaw, o bosibl pan arhosodd ym Mhalesteina (*Efraci*) ar ei daith i Rufain:

A chyrru Rhufain, rhan gyreifiaint,
A gwest yn Efraci, gwst diamraint,
A goddef palfawd, dyrnawd tramaint,
I gan forwyn ddifwyn, ddiwyl ei daint.²⁷

²⁷ 'Canu i Ddewi', llau. 21–4.

a chyrchu Rhufain, rhanbarth maddeuant, a lletya ym Mhalesteina, ymdrech aruchel, a dioddef ergyd â’r llaw, dyrnod anferthol, gan forwyn annymunol, ‘ddiwyl ei daint’.

Mae dioddef erledigaeth gan ferch, yn enwedig un y gwrthodasai’r sant ei serchiadau yn y gorffennol, yn thema gyffredin ym mucheddau’r saint yn gyffredinol, ac yn un sy’n pwysleisio unplygrwydd y sant yn ei wryfddod. Cyfeiriodd Cynddelw yn yr un modd at hanes Tysilio yn gwrthod serchiadau Haearnwedd, gweddw ei frawd, ac yn sgil hynny’n cael ei erlid yn ddidrugaredd ganddi fel y bu’n rhaid iddo ffoi i ymguddio rhagddi ar Ynys Tysilio yn y Fenai:

Mad gyrchawdd garchar alltuedd,
Cyrch cyflawn cyfle difröedd ...
Mad gorau maddau marthöedd
Ac er Duw diofryd gwagedd.
Gwraig enwawg, anwar ei thressedd,
A’i treiddwys – bu trwy enwiredd!²⁸

Teithiodd yn ffortunus i gaethiwed alltudiaeth, taith gyflawn i ardal ddieithr ... Yn ffodus fe lwyddodd i osgoi gwarth ac er Duw ymwrthod â gwagedd. Ymwelodd gwraig enwog, filain ei gormes ag ef – bu hyn drwy ddygioni!

Tybed ai oherwydd iddo ei gwrthod yr ymosododd y ferch *ddiwyl ei daint* ym Mhalesteina ar Ddewi yntau? Yn ei golygiad o’r gerdd yng Nghyfres Beirdd y Tywysogion, aralleiriodd Dr Morfydd E. Owen *diwyl ei daint* fel ‘haerllug ei harferion’, gan ddilyn J. Lloyd Jones (yn G) a *Geiriadur Prifysgol Cymru* a dderbyniodd yn eu tro farn gwbl hyderus Vendryes nad yw ystyr arferol *daint* ‘dannedd’ yn addas yma: ‘Le sens de “dents” ne convient pas dans un vers du poème de Gwynfardd à saint David’; a chysyllta’r ffurf yn hytrach â gair Hen Wyddeleg *dét*, ‘Le mot *deint* s’y laisse aisément interpréter comme le correspondant de l’irlandais *dét* “tempérament, hardiesse”.’²⁹ Os yw’r gair wir yn bodoli – a sylwer mai hon yw’r unig enghraifft a rydd y geiriaduron uchod – yna gallwn dybio bod

²⁸ ‘Canu Tysilio’, llau. 21–2, 27–30.

²⁹ Gw. J. Vendryes, ‘Remarques de vocabulaire’, *Revue celtique* 46 (1929), 252–4, lle ceir nodyn ar ‘Irlandais *dét*, m. gallois *deint* “manières, dispositions, tempérament, caractère”’. Dilynwyd Vendryes, o ran yr ystyr a’r tarddiad gan J. Lloyd Jones yn *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (Caerdydd, 1931–63) d.g. *dant*²; felly hefyd *GPC* Ar Lein (d.g. *dant*) o ran yr ystyr, ‘Moesau, anian; dig, malais’, ond gan nodi ychydig o ansicrwydd am ei darddiad: ‘i’w gysylltu naill ai â’r e. *daint*, *dant* neu o bosibl â’r Gwydd. *dét* “tymer, anian”’. Wrth drafod y gair yng ngherdd Gwynfardd, derbyniwyd y cysylltiad â’r gair Hen Wyddeleg gan Alexander Nikolaev, ‘Indo-European *dem(h₂)- “to build” and its derivatives’, *Historische Sprachforschung / Historical Linguistics* 123 (2010), 61: ‘As it seems, we are indeed dealing here with a word meaning “manners” or “disposition” for which a derivation from the root meaning “to build” is semantically plausible ... both Middle Irish *dét* and Middle Welsh *dant** go back to Proto-Celtic *danto- ...’.

daint ‘moesau’ yn cynnig gwell ystyr na thybio bod y ferch wedi brathu’r sant, hynny ydi wedi ymosod arno’n gorfforol â’i dannedd. Fodd bynnag ceir digon o dystiolaeth yn y Gymraeg fod y gair *daint* ‘dannedd’ yn cael ei ddefnyddio’n ffigurol yng nghyswllt geiriau a leferir. Er enghraifft, mewn pennill yn enghreifftio’r gyhydedd fer yn fersiwn Llyfr Coch Hergest o’r gramadegau barddol, cawn y disgrifiad canlynol o ddiodefaint y bardd oherwydd ei serch tuag at ferch hardd sy’n ei wrthod:

Gwan wyf o glwyf, yn glaf trymaint,
Gwen ffraeth a’ m gwnaeth gne gofeilaint,
Gweniaith yw gwaith y gwythlon ddaint,
Gwynder lleufer lloer am bylgaint.³⁰

Er mor ddefnyddol yw’r ferch hon o ran ei harddwch, nid felly’r hyn a ddaw allan o’i genau, a chŵyn y bardd yw mai ‘Geiriau twyllodrus yw cynnyrch y dannedd lliidiog’. Mae hi’n gas wrtho. Cyfeirir at y *dannedd* eto fel cyfrwng i gyfleu geiriau yn ‘Hystoria Lucidar’, lle cymherir yr eglwys i gorff dynol: *y clustau ýnt y rhai a wrandawont. Y ffroenau yw y doethon dosbarthus*, meddir, a’r *dannedd ýnt esbonwyr yr ysgrythur lân*.³¹ Ac yn ddiweddarach yn yr unfed ganrif ar bymtheg gall mai geiriau gwythlon neu lliidiog yw grym *daint* hefyd mewn cywydd dychan i Syr Wiliam Gruffudd o’r Penrhyn (m. 1531), lle cwyna Ieuan Delynor fod Syr Wiliam yn ymateb yn chwyrn ac yn lliidiog i unrhyw ddatgeiniad sy’n canu camfesur:

O chân un iwch yn annoeth
Gamfesur mewn difyr doeth,
Deli’n ddig o ffyrnigddull
Dan dy ddaint, adwen dy ddull.³²

Onid yw’n rhesymol credu bod y ferch *ddiwyl ei daint* y daeth Dewi ar ei thraws ym Mhalesteina wedi llefaru ‘geiriau’ cas wrtho yn ogystal â rhoi ergyd iddo â’i llaw (*palfawd*)?

O ddi-ddordeb arbennig yw’r cyfeiriadau yn ‘Canu i Ddewi’ at hanesion neu themâu y ceir adleisiau ohonynt mewn barddoniaeth ddiweddarach, ond na chyfeirir atynt yn y bucheddau rhyddiaith i Ddewi.

³⁰ Gw. G. J. Williams ac E. J. Jones, *Gramadegau’r Penceirddiaid* (Caerdydd, 1934), 10; dyfynnir yma o *GEO* Atodiad C 22, lle y’i haralleirir: ‘Yr wyf yn wan oherwydd clwyf, [yr wyf] yn glaf o [glefyd] difrifol, / [Y] ferch hardd ffraeth a barodd i mi olwg cystudd, / Geiriau twyllodrus yw cynnyrch y dannedd lliidiog, / [Hi sydd o] wynder goleuni lleuad ar doriad gwawr.’

³¹ Gw. *LIA* 22 (llau. 22–3, 25) *Y clustev ynt. yrei awarandaŋont. Y ffroennev yb. y doethon doosparthus ... Y dannedd ynt ysonbyr yr yscrythur lan.*

³² *CYSDT* 13.21–4, a gw. y nodyn ar y llinell. Ond fe allai hyn gyfeirio at ddieter mewnol nas mynegir yn agored, gyda’r *daint* yn rhwystro’r geiriau dig, cf. yr hen ddihareb *Da daint rhag tafod*. (Diolch i’r Athro Barry J. Lewis am yr awgrym hwn.) Os felly, gellid aralleirio’n fras: ‘Os yw rhywun yn annoeth yn canu / mewn mesur anghywir i ti mewn difyrrwch doeth, / fe fyddi di’n teimlo’n ddig mewn modd ffyrnig / [ond] heb ddweud dim (yn llythr. ‘o dan dy ddannedd’), rwy’n gyfarwydd â’t ddull.’

Yn y llinellau canlynol disgrifia Gwynfardd Brycheiniog y *bryn gwyn* a gododd yn Llanddewi Brefi yng ngŵydd tyrfa enfawr o 147,000 o bobl.

Dyrchafwys **bryn gwyn** breiniawl ei fraint
Yng ngŵydd **saith mil mawr a saith ugaint**:
Archafael, caffael gan westeifaint,
Dyrchafwys Dewi Brefi a'i braint.³³

Cododd bryn gwyn aruchel ei fraint ym mhresenoldeb saith mil a saith ugain mil mawr: dyrchafiad [tir], a'i dderbyn gyda chroeso, dyrchafodd Dewi Frefi a'i braint.

Defnyddia Gwynfardd yr un cyfuniad *bryn gwyn* i gyfeirio at y tir a ddyrchafodd o dan draed y sant yn Llanddewi mewn dau le arall yn y gerdd, gan awgrymu y gall fod yn gyfuniad sefydlog.³⁴ Fel *mynyd uchel* y disgrifir y bryn yn y fuchedd Gymraeg,³⁵ ac ym muchedd Ladin Rhygyfarch cyfeirir ato'n syml fel *collis* ('bryn') gan ei gymharu â *mons* ('mynydd') o ran ei uchder.³⁶ Fel *bryn* y cyfeiria'r beirdd Cymraeg yn gyson at y dyrchafiad tir hwn, wrth iddynt ddisgrifio'r un achlysur: e.e. meddai Iolo Goch:

Cyfodes, nid oedd resyn,
Dan draed Dewi Frefi **fryn**,
Lle dysgodd llu dewisgoeth,
Lle bu yn pregethu'n goeth,
Chwemil, saith ugeinmil saint
Ac unfil, wi o'r genfaint³⁷

a chan Ieuan ap Rhydderch ceir:

Mawr fu'r nifer am gerynt
A gad yng nghwm Brefi gynt:
Saith ugain mil, syth hoywgad,
A saith mil, cynnil y cad,
A ddaeth i'r bregeth ddethol
A wnaeth Dewi Sant yn ôl.

³³ 'Canu i Ddewi', llau. 27–30.

³⁴ Dichon mai 'bryn sanctaidd' yn syml yw'r ystyr, ond diddorol yw'r dystiolaeth o'r 18g. am yr enw *Bryngwyn / Bryn Gwyn* ger Llanddewi Brefi, gw. I. Wmffre, *The Place-Names of Cardiganshire* (Oxford, 2014), 616.

³⁵ *BD* 17.19–20 *kyuodes y llawr hwnnw megys mynyd uchel dan y draet ef*.

³⁶ *VSD* 144, 145: *terra sub ipso accrescens attollitur in collem. Ab omnibus, in summo positus, cernitur, ut in montem excelsum stans* 'the earth under him swelled and was raised to a hill. Lifted up in this way, he could be seen by all as though he were standing on a high mountain'.

³⁷ 'Mawl i Ddewi Sant', gol. Dafydd Johnston, <seintiaucymru.ac.uk/ygolygiad/>, cerdd 4, llau. 57–62, lle aralleirir: 'Cododd bryn, nid peth gwael ydoedd, dan draed Dewi o Frefi lle dysgodd dorf ddethol a gwyich, lle bu'n pregethu'n goeth, chwe mil, saith ugeinmil o seintiau ac un fil, am gynulliad!'

Cyfodes **bryn**, cof ydoedd,
 Dan ei draed, arglwyddwaed oedd;
 Clywad ef, clau wawd ofeg,
 Mal cloch yn Llandudoch deg.³⁸

a chyfeiria Lewys Glyn Cothi'n benodol at y tir fel *bryn gwyn*:

Dan dy draed unDuw a droes
Bryn gwyn a bery gannoos.³⁹

Ni nodir maint y dyrfa yn y bucheddau rhyddiaith, ond mae'n drawiadol fod Iolo Goch ac Ieuan ap Rhydderch yn dilyn Gwynfardd Brycheiniog o ran yr union rif 147,000. Dichon mai chwyddiant naturiol y traddodiad llafar sydd i'w gyfrif am y ffaith fod maint y dyrfa wedi cynyddu i 160,000 erbyn i Ddafydd Llwyd o Fathafarn gyfarch Dewi (fel *Dafydd*, yma) yn y bymthegfed ganrif:

Rhai ddaeth i'th bregeth ryw ddydd – i'th ganmol
Wyth ugeinmil, Dafydd.⁴⁰

Os Gwynfardd Brycheiniog a ddyfalodd y rhif hwn yn y lle cyntaf, tybed ai o destun y gerdd yn Llawysgrif Hendregadredd y cafodd Iolo Goch ac Ieuan ap Rhydderch ef? Gwyddom fod y llawysgrif honno yng nghartref Ieuan yng Nglyn Aeron erbyn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg,⁴¹ ac mae lle i gredu bod Ieuan ac Iolo Goch yn gyfarwydd â'i chynnwys. Wrth drafod cyfeiriadau gan feirdd diweddarach at farddoniaeth Hywel ab Owain Gwynedd, y cadwyd ei farddoniaeth yntau yn Llawysgrif Hendregadredd, meddai Dafydd Johnston:

Dim ond un cyfeiriad penodol a geir at farddoniaeth Hywel ab Owain Gwynedd, a hwnnw gan Ieuan ap Rhydderch yn gynnar yn y bymthegfed ganrif ... Mab Rhydderch ab Ieuan Llwyd oedd y bardd Ieuan ap Rhydderch, a rhesymol yw tybio iddo ddarllen cerddi Hywel ab Owain Gwynedd ar aelwyd ei dad.⁴²

Noda Johnston ymhellach fod dylanwad cerddi Hywel ab Owain i'w gweld ar dri bardd arall a dderbyniodd nawdd yng Nglyn Aeron, gan gynnwys

³⁸ *GIRh* 8.79–88, lle aralleirir, 'Mawr fu'r nifer oherwydd cyfeillion / A gafwyd yng nghwm Brefi gynt: / Saith ugeinmil, llu bywiog cywir, / A saith mil, yn fanwl y cafwyd [hwy], / A ddaeth i'r bregeth ddethol / A draddododd Dewi Sant wedyn. / Cododd bryn, yr oedd cof [amdano], / Dan ei draed, o waed bonheddig yr oedd; / Clywyd ef, [gyda] lleferydd eglur [datganwr] cerdd, / Fel cloch yn Llandudoch deg.'

³⁹ *GLGC* cerdd 142, llau. 27–8, 'Awdl-gywydd i Ddewi Sant'; gellid aralleirio'n fras: 'O dan dy draed yr un Duw a barodd fod bryn gwyn a fydd yn parhau am gan oes'.

⁴⁰ *GDLI* 13.27–8; gellid aralleirio'n fras: 'Rhai ddaeth i'th bregeth ryw ddydd i'th ganmol, Dafydd, wyth ugain mil (160,000) ohonynt'.

⁴¹ Gw. *GLIBH* 1, *et passim*.

⁴² Gw. Dafydd Johnston, 'Hywel ab Owain Gwynedd a Beirdd yr Uchelwyr', yn *Hywel ab Owain Gwynedd: Bardd-Dywysog*, gol. Nerys Ann Jones (Caerdydd, 2009), 135.

Iolo Goch.⁴³ Mae’n ddigon posibl, felly, fod Iolo Goch ac Ieuan ap Rhydderch, yn annibynnol ar ei gilydd, wedi codi’r manylyn am faint y dyrfa ym Mrefi o gerdd Gwynfardd yn Llawysgrif Hendregadredd. Eto i gyd, mae disgrifiad y ddau o’r ddaear yn codi *dan draed* y sant, ymadrodd nas ceir gan Gwynfardd ond a geir yn y fuchedd ryddiaith,⁴⁴ o bosibl yn awgrymu bod y naill wedi dilyn y llall, ac fel y gwelwyd uchod, defnyddiodd Lewys Glyn Cothi’r un ymadrodd hefyd. Yn olaf, mae’r rhif 147,000 yn ymddangos yn rhif annisgwyl braidd, nes i ni gofio mai 147 oedd oedran Dewi pan fu farw, yn ôl Rhygyfarch.⁴⁵

Enghraifft bosibl arall o ddylanwad penodol cerdd Gwynfardd ar gywydd Ieuan ap Rhydderch yw’r hanes am *Magna* yn cael ei atgyfodi gan Ddewi ar ei ffordd i synod Brefi, hanes a ysbrydolwyd mae’n siŵr gan hanes Crist yn atgyfodi mab i wraig weddw yn Nain.⁴⁶ Meddai Gwynfardd Brycheiniog:

A Dewi a’i gorug (gŵr bieifydd)
Magna fab yn fyw a’i farw ddeuddydd⁴⁷

A Dewi (y gŵr y bydd hyn yn briodol iddo) a barodd fod y mab Magna
yn fyw ac yntau wedi marw er deuddydd

ac meddai Ieuan ap Rhydderch yntau am Ddewi:

Da y gwnâi Fagna â’i fagl
O farw yn fyw o firagl.⁴⁸

Ni roddir enw i’r mab yn y fuchedd Gymraeg,⁴⁹ ond fe’i gelwir yn *Magnus* gan Rygyfarch.⁵⁰ Mae’r ffurf *Magna* yn annisgwyl, gan ei bod yn ymddangos fel ffurf fenywaidd, ond fel y gwelir dyna’r ffurf a geir hefyd gan Ieuan ap Rhydderch, er nad oes dim i gadarnhau ai bachgen, yn hytrach na merch, oedd Magna yn ei feddwl ef.⁵¹

⁴³ Johnston, ‘Hywel ab Owain’, 136; er na cheir cyfatebiaethau geiriol amlwg rhwng cerddi Hywel ac Iolo Goch, awgrymir, td. 138, fod ôl eu dylanwad i’w weld yn gryf ar rai o’i gerddi, a bod y cyfatebiaethau yn cynrychioli’r ‘math o adlais anfanwl, argraffiadol y gellid ei ddisgwyl pe bai bardd wedi darllen copi o gerdd unwaith ac yn dibynnu ar ei gof wedyn’.

⁴⁴ Gw. troednodyn 35 uchod.

⁴⁵ *VSD* 148, 149.

⁴⁶ *Ibid.*, 145, a gw. Luc 7.11–15.

⁴⁷ ‘Canu i Ddewi’, llau. 124–5.

⁴⁸ *GIRh* 8.77–8, lle aralleirir: ‘Da y gwnaeth Fagna â’i fagl / O farw yn fyw trwy wyrth.’

⁴⁹ Gw. *BD* 15–16 ‘Cyfodi Mab y Weddw’.

⁵⁰ *VSD* 144, 145: *Et ecce orbata mater corpus extincti pueri seruabat, qui Magnus uocabatur* ‘And behold, a bereaved mother was holding the body of her dead son, who was called Magnus’.

⁵¹ Am drafodaeth bellach ar yr enw, gw. Barry J. Lewis, ‘Ar drywydd Magna, “chwaer Dewi Sant”, ac eglwys ddfianedig yn Nyffryn Teifi’, *Studia Celtica* 52 (2018), 33–52 (yn arbennig 45–6).

Un o'r pethau nodedig am awdl Gwynfardd Brycheiniog i Ddewi yw'r pwyslais a roddir ynddi ar diriogaeth y sant, ei noddfa yng Ngheredigion a'i eglwysi ar draws de Cymru. Enwir Dewi hanner cant a naw o weithiau ynddi, gan fwyaf yng nghyswllt ei diriogaeth – mae hynny'n drawiadol iawn, yn enwedig o gymharu â thri chyfeiriad prin Cynddelw at Dysilio wrth ei enw mewn awdl sydd bron yr un hyd a thri chyfeiriad ar ddeg at Gadfan yn awdl Llywelyn Fardd. Ond yn wahanol i'r ddwy gerdd hynny, mae perthynas Dewi â'i diriogaeth yn thema gwbl greiddiol yng ngherdd Gwynfardd, a go brin mai cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith fod nifer o'r eglwysi a enwir ynddi wedi eu hailgysegru iddo yn yr unfed ganrif ar ddeg neu'r ddeuddegfed ganrif.⁵²

Er bod sawl cyfeiriad gan Wynfardd at *Fynyw* – ei air arferol am Dyddewi a chylch ei ddylanwad – mae prif ffocws y gerdd ar eglwys Dewi yn Llanddewi Brefi a'i diriogaeth ym *Mrefi*, sef gair a ddefnyddir o bosibl ganddo i gynnwys yr eglwys a'r tiroedd yng Ngheredigion a ddeuai dan ei nawdd. Honna Gwynfardd mai braint y rhai sy'n trigo o fewn dalgylch nawdd Brefi oedd rhyddid heb ofid, heb angen, a heb boeni o gwbl ynghylch rhyfel:

A rhyddid heb ofud, heb ofyn amgen,
Heb ofal cynnen cylch ei bennaint.⁵³

a rhyddid heb ofid, heb orfod gofyn am ddim rhagor, heb bryder am anghydfod o angylch ei ucheldiroedd.

Yn ôl Buchedd Dewi ymestynnai *nodua Dewi* yng Ngheredigion rhwng afonydd Teifi a Thywi: *o Dywi [= Dywi] hyt ar Deivi*.⁵⁴ Ceir disgrifiad manwl o hyd a lled y diriogaeth hon gan Wynfardd. *Diogel ei nawdd i'r neb a'i cyrcho*, meddai

O Garawn gan iawn, gan ehöeg,
Hyd ar Dywi afon firain a theg;
O'r Llyndu, lle 'd fu llid gyhydreg,
Hyd ar Dwrch, terfyn tir â charreg.⁵⁵

⁵² E.e. eglwys Llangyfelach, 'the mother church [of Gŵyr] in the eleventh and twelfth centuries at least', Heather James, 'The geography of the cult of St David: a study of dedication patterns in the medieval diocese', in *St David of Wales: Cult, Church and Nation*, ed. J. W. Evans and J. M. Wooding (Woodbridge, 2007), 70. Esbonnir yno i Gŵyr gael ei chynnwys yn gymharol hwyr yn rhan o esgobaeth Tyddewi, ac mae'n ddigon posibl mai bryd hynny y cysegrowyd hi i Ddewi yn ogystal â Chyfelach. Gw. ymhellach 'Canu i Ddewi', ll. 87n ar *balchlan Gyfelach*, a cf., e.e., *Llanddewi y crwys* (ll. 103n) a *Llanarth* (ll. 97n).

⁵³ 'Canu i Ddewi', llau. 15–16.

⁵⁴ *BD* 18.21–2.

⁵⁵ 'Canu i Ddewi', llau. 144–7.

o Garon trwy iawnder, a’i lliw porffor, hyd afon Tywi wych a hardd; o’r Llyn Du, lle bu gwrthdaro lliidiog, hyd afon Twrch, terfyn tir â charreg.

Yn Llyn Teifi, yn ardal *Carawn*, y mae afon Teifi (nas henwir yn benodol yma) yn tarddu, a hi sy’n llunio ffin orllewinol nawdd Dewi. Tardda afon Tywi yn y Llyndu (bellach Llyn Du) yn Fforest Tywi, yn y mynyddoedd sy’n gorwedd rhwng Ceredigion a Buellt, tua chwe milltir i’r gogledd-ddwyrain o Dregaron.⁵⁶ Os felly, gall fod *Llyndu* yma’n cynrychioli pegwn gogleddol hefyd, o bosibl ar y ffin rhwng tiroedd Dewi yn ne Ceredigion a thiroedd Padarn yn y gogledd.⁵⁷ Er na allwn fod yn gwbl hyderus mai at y llyn hwn y cyfeirir yma, mae ei leoliad ffiniol – rhwng Ceredigion a Buellt, yn ogystal â rhwng de a gogledd Ceredigion – o bosibl yn esbonio’r cyfeiriad at y gwrthdaro chwyrn (*llid gyhydreg*) a fu ar y safle yn y gorffennol. Tybed a fu’n fan lle byddai pleidiau o ddwy ardal gyfagos yn cydgyfarfod er mwyn ceisio datrys anghydfod, yn yr un modd ag yr oedd Bwlchoerddrws yn cael ei gydnabod yn fan cyfarfod rhwng Meirionnydd a Mawddwy yn ôl tystiolaeth ddiweddarach?⁵⁸

Cynrychiolir pedwerydd pegwn y cwmpawd gan afon Twrch, sy’n codi yn y mynydd-dir ychydig i’r de-ddwyrain o Landdewi Brefi ac yn llifo i’r de trwy Lan-y-crwys cyn ymuno ag afon Cothi ychydig i’r de o Bumsaint. Awgryma’r bardd fod carreg yn ymyl yr afon hon sy’n yn dynodi *terfyn tir*, ac mae’n sicr fod Heather James yn gywir mai Carreg Hirfaen Gwyddog yw hon, carreg drawiadol sy’n sefyll rhyw filltir i’r gorllewin o’r Twrch.⁵⁹ Roedd yn garreg enwog yn ei dydd, ac fe’i henwir yn Efengylau Caerlwythgoed yn y ddegfed ganrif, i ddynodi ffin orllewinol Trefwyddog, yr ardal y daethpwyd i’w hadnabod yn ddiweddarach fel Caoe.⁶⁰

Ym mhedwerydd caniad ‘Canu i Ddewi’ ceir rhestr ryfeddol a threfnus o eglwysi Dewi ar draws de Cymru. Cychwynnir gan enwi’r ddwy bwysicaf, *Mynyw a Brefi*:

⁵⁶ Cf. H. Lewis, *Hen Gerddi Crefyddol* (Caerdydd, 1931), 192; ac ymhellach ar y llyn a’r afon, cf. G. J. Jenkins, *Ar Lan Hen Afon* (Llandysul, 2005), 62, ‘Mae’r afon Tywi yn tarddu yn Llyn Du ger Tregaron, gan lifo trwy ddyffryn toreithiog i Fae Caerfyrddin.’

⁵⁷ Ni ellir bod yn gwbl hyderus mai dyma’r *Llyndu* a enwir yma. Gan fod pridd mawn yn nodwedd ar dir sawl rhan o Geredigion, ceir o leiaf tri llyn a elwir yn *Llyndu* / *Llyn Du* yn y sir. Lleolir yr enwocaf ohonynt i’r gogledd o Lynnoedd Teifi, a chyfeiria Leland ato yn yr unfed ganrif ar bymtheg fel ‘*Linduy, i.e. lacus niger*’, L. T. Smith, *The Itinerary in Wales of John Leland in or about the years 1536–1539* (London, 1906), 107. Ond mae hwn braidd yn rhy ogleddol. Ceid *Llyndu* arall rhwng Landdewi Brefi a Llangeitho a oedd hefyd yn gwagio i afon Teifi. Mae’r llyn hwn bellach wedi sychu, ond mae enwau lleoedd cyfagos fel *Celli Llyndu* a *Phontllyndu* yn tystio i’w fodolaeth ar un adeg, gw. Wmffre, *The Place-Names of Cardiganshire*, 1258 a hefyd 538, 595.

⁵⁸ J. B. Smith, ‘Cyd fodau o’r bymthegfed ganrif’, *BBGC* 21 (1964–6), 309–24.

⁵⁹ James, ‘The geography of the cult of St David’, 67.

⁶⁰ Gw. Coflein <coflein.gov.uk/en/site/303901/> dan *Carreg Hirfaen; hirvaen Gwyddog*, ‘An erect monolith, 4.8m high by 1.1m by 0.8m, carrying a modern in[s]cription: serves as a boundary marker between Ceredigion and Carmarthenshire, first mentioned in this role in the 10th century AD.’

Dewi mawr Mynyw, syw sywedydd,
A Dewi Brefi ger ei broydd.⁶¹

Dewi mawr Mynyw, athro doeth, a Dewi Brefi ger ei gwastadeddau.

Nesaf daw Llangyfelach (*balchlan Gyfelach*), prif eglwys Gŵyr y cyfeiriwyd ati eisoes, a lle y derbyniodd Dewi orchymyn gan angel i fynd i Jerwsalem ac y danfonwyd iddo allor gan badriarch o Jerwsalem ar ôl iddo ddychwelyd i Gymru.⁶² Dichon mai arwydd o bwysigrwydd yr eglwys hon yw'r ffaith fod y bardd yn neilltuo cwpled cyfan i'w disgrifio (a bron na chlywir islais yn y llinell gyntaf yn cadarnhau mai Dewi bellach biau'r eglwys hon, nid Cyfelach⁶³):

A Dewi biau balchlan Gyfelach
Lle mae morach a mawr grefydd⁶⁴

a Dewi biau eglwys ysbennydd Cyfelach lle mae llawenydd a defosiwn mawr.

O hyn ymlaen enwir yr eglwysi mewn rhyw fath o drefn ddaearyddol:⁶⁵ enwir eglwys *Meidrum* yng nghwmwd Ystlwyf, a'i dilyn gan glwstwr ar lan afon Teifi am y ffin â sir Gaerfyrddin – *Bangor [Teifi]*, *Henllan a Maenawrdeifi* – ac *Abergwyli* yn sir Gaerfyrddin. Yna symudir i'r gogledd at eglwysi *Henfynyw* a *Llanarth* i'r de o afon Aeron yng Ngheredigion. Mae lleoliad y ddwy nesaf, *Llanadnau* a *Llangadog* yn ansicr – ond mae'n bosibl y dylid uniaethu *Llanadnau* ag eglwys Dewi yn Llanarthne yn sir Gaerfyrddin, ac mae'n debygol mai eglwys bwysig ar y Sarn Hir, a gysylltai orllewin Cymru a Brycheiniog, yw *Llangadog*, gan ein harwain nesaf i eglwysi Dewi yn y sir honno.⁶⁶ Yn gyntaf enwir pum eglwys ger prif dref Brycheiniog yn Aberhonddu: *Llan-faes*, *Llywel*, *Garthbryngi*, *Trallwng Cynfyn* a *Llanddewi*, sef eglwys Llan-ddew, milltir i'r gogledd o'r dref.⁶⁷ Yn nesaf enwir dwy eglwys yn Elfael, sef *Glasgwm* (prif eglwys

⁶¹ 'Canu i Ddewi', llau. 85–6.

⁶² Yn Llangyfelach yr oedd Dewi, yn ôl Ieuan ap Rhydderch, pan ddaeth angel ato i'w anfon i Jerwsalem: *GIRh* 8.55–8, *Angel a ddoeth ... / I gôr Llangyfelach gynt / I yrru Dewi euriaith / I fedd Caersalem faith* ('Daeth angel ... / I gysegr Llangyfelach gynt / I anfon Dewi wych ei iaith / I fedd Caersalem faith'); ac yno, medd y bardd, y derbyniodd Dewi rodd, sef allor mae'n debyg, gan y padriarch o Jerwsalem, yn ôl Rhygyfarch (*VSD* 120, 121): *deinde monasterium in loco, qui dicitur Langemelach, fundauit in regione Guhir, in quo postea altare missum accepit* 'then he founded a monastery in the place called Llangyfelach, in the region of Gower, in which he later received the altar sent to him'.

⁶³ Gw. troednodyn 52.

⁶⁴ 'Canu i Ddewi', llau. 87–8.

⁶⁵ 'Canu i Ddewi', llau. 90–109.

⁶⁶ Ymhellach ar y ddwy eglwys hynny, gw. 'Canu i Ddewi', llau. 97n, 98n.

⁶⁷ Gw. 'Canu i Ddewi', ll. 103n. Cysegrwyd yr eglwys hon yn wreiddiol i Dduw, ond yna i Ddewi, o bosibl yn y ddeuddegfed ganrif. Arni, gw. Coflein <coflein.gov.uk/cy/safle/213/> dan *St David's Church, Llanddew*.

Elfael) a *Chraig Fruna* (bellach Cregrina), ac yn olaf un ym Maelienydd, *Ystrad Nynnid* (bellach Ystradenni) cyn dychwelyd i Landdewi Brefi gan neilltuo sawl llinell i foli tiriogaeth a chymuned yr eglwys honno. Mae gwybodaeth fanwl Gwynfardd am leoliadau'r eglwysi hyn, a'r modd y mae'n cyfeirio'n aml at ryw nodwedd ddaearyddol a berthyn iddynt – megis y meillion toreithiog sy'n tyfu ar lannau'r Aeron ger Henfynydd neu bresenoldeb amlwg y *glas fynydd* ger eglwys Glasgwm – yn awgrymu'n gryf ei fod yn bersonol gyfarwydd â'u lleoliadau.

Mae'n debygol iawn mai enw barddol oedd *Gwynfardd Brycheiniog*, a luniwyd, ym marn R. Geraint Gruffydd, ar sail enw *Gwynfardd Dyfed*, un o gyndeidiau Dafydd ap Gwilym.⁶⁸ Gall *Gwyn-* olygu 'sanctaid' neu 'gwynfydedig' ac mae'n ddigon posibl fod *Gwynfardd* wedi datblygu'n derm am fardd ac iddo gyswllt â sefydliad crefyddol penodol. Yn sicr, ymuniaetha Gwynfardd â dilynwyr Dewi yn y gerdd hon. Tybed a oedd ganddo gyswllt arbennig ag un o eglwysi Dewi ym Mrycheiniog, megis hen eglwys fynachlogaidd bwysig Llan-ddew, ger Aberhonddu, a enwyd uchod? Credir mai yno, mewn palas esgobaethol ar bwys yr eglwys y trigai Gerallt Gymro wedi iddo gael ei ethol yn archddiacon Brycheiniog yn 1175.⁶⁹ Perthynai'r archddiaconiaeth i esgobaeth Tyddewi, ac yn ei flynyddoedd fel archddiacon gwelid Gerallt Gymro yn gweithredu'n ymarferol i hyrwyddo cwlt Dewi ac i amddiffyn hawliau'r esgobaeth. Os oedd cyswllt rhwng Gwynfardd a Llan-ddew (ai yma, efallai, y derbyniodd ei addysg?), efallai nad oes raid i ni synnu iddo fod mor wybodus am hanes Dewi a'i eglwysi.

⁶⁸ R. G. Gruffydd, 'The early court poetry of south-west Wales', *Studia Celtica* 14/15 (1979–80), 100.

⁶⁹ Gw. J. L. Davies, 'Notes on the parish and church of Llanddew, Brecknockshire', *Archaeologia Cambrensis*, 4th ser., 4 (1873), 282–4.